

Rhifyn Newydd 37

Egni Gwyrdd - O ble daw ein Egni? gan Angharad Williams

Yfed paned o de wrth eistedd mewn ystafell gynnes yn gwylio ffilm.
Dyna yw un o fy hoff ffyrdd o ymlacio ar brynhawn gwlyb yn ystod y gaeaf.

Er mwyn i mi fedru mwynhau'r tri pheth uchod mae rhaid i mi ddefnyddio trydan: i ferwi'r dŵr i wneud paned, i gynhesu'r ystafell ac i wyllo'r teledu.

Wrth ddechrau meddwl, mae nifer o bethau rwy'n ei wneud mewn diwrnod yn defnyddio trydan. Allwch chi ddychmygu bywyd heb drydan?

Erbyn heddiw rydym yn cymryd trydan yn ganiataol. Ond sut mae'r trydan yn cael ei gynhyrchu? Pa fath o egni sy'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu trydan?



Gorsaf Bŵer Aberthaw
© Hawlfraint y Goron: CBHC
GTJ28663



Fferm Wynt Llidiart y Waun
© Hawlfraint y Goron: CBHC
DI2006_0497



Piblin Cwm Dyli
© APCE



Gorsaf Niwclear Trawsfynydd
© Hawlfraint y Goron: CBHC

Mae'r egni sy'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu'r trydan yn y pwerdai uchod yn wahanol. Egni'r gwynt, egni niwclear, pŵer o egni dŵr ac wrth losgi glo neu nwy. Un peth mae angen i ni gofio - pa bynnag ffordd y cynhyrchwyd y trydan ni ddylem ei wastraffu.

Mae rhai o'r ffynonellau egni hyn yn adnewyddadwy, sef egni gwyrdd.
Rhestrwch y pwerdai yn ôl y math o egni sy'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu'r trydan.

Egni Adnewyddol - Gwyrdd **Egni Anadnewyddol**

Ffermydd Gwynt

Dros yr ugain mlynedd diwethaf mae mwyfwy o ffermydd gwynt yn cael eu codi yng Nghymru. Caiff y ffermydd hyn eu codi ar fynyddoedd ac yn y môr wrth arfordir Cymru. Pam fod y llefydd hyn yn ddelfrydol ar gyfer fferm wynt?

Mae adeiladu ffermydd gwynt yn bwnc llosg ac mae'n gallu achosi cryn dipyn o ddadlau. Meddyliwch am fanteision ac anfanteision ffermydd gwynt. Beth yw eich barn chi am ffermydd gwynt?

Gwaith ymestynnol

Trefnwch dadl dosbarth. Mae cwmni am adeiladu fferm wynt ar fynydd wrth eich ysgol. Rydych am drefnu cyfarfod agored er mwyn i bawb allu rhannu eu barn a thrafod eu cynlluniau neu eu pryderon. Gallwch wneud Jigso rhyngweithiol i weld effaith eich datblygiad ar y tirlun. Dilynwch y cyswllt yma - [JIGSO DYFODOL ERYRI](#). Byddwch angen Cadeirydd i gadw trefn ac i drefnu pleidlais ar ddiwedd y cyfarfod, a siaradwyr i gynrychioli'r grwpiau gwahanol, e.e.

- siaradwr ar ran y cwmni sy'n codi'r melinau gwynt
- cynghorwyr lleol, efallai un o blaid ac un yn erbyn y cynllun
- ffermwyr neu berchnogion y tir lle caiff y melinau gwynt eu hadeiladu
- archaeolegydd sy'n poeni bod crug-gladdiad neu gaer Geltaidd yn mynd i gael ei dinistrio wrth godi'r melinau gwynt
- trigolion lleol
- cynrychiolaeth o sefydliadau amgylcheddol neu gyfeillion y Ddaear
- swyddogion neu ymgyrchwyr ar ran bywyd gwyllt
- swyddog o Barc Cenedlaethol lleol

Os yw eich ysgol o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol gallwch hefyd drafod a ddylai fferm wynt gael ei hadeiladu yno. A fyddai'n amharu ar harddwch yr ardal? A ddylai ymwelwyr i'r parc allu gweld fferm wynt yn y pellter neu a ddylai cynllunwyr ystyried prydferthwch y tirlun? Neu ydi gofalu am yr amgylchedd yn bwysicach?

Gall eich siaradwyr, neu eu cefnogwyr, baratoi cyflwyniadau ac/neu bosteri ar gyfer y cyfarfod. Cofiwch y bydd angen chwilio am ffeithiau ac esiamplau i gefnogi eich dadl. Gellwch ddod o hyd i luniau o ffermydd gwynt (a phwerdai gwahanol) yng Nghymru ar wefan Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru - edrychwch dan adnoddau dysgu.

Pob hwyl ar y dadlau - tybed a fydd eich cynulleidfa o blaid neu yn erbyn y cynllun?